**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 14 Ionawr 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L G Thomas | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Alec Dubens | Swyddog Trwyddedu |
| Richard Booton | Swyddog Trwyddedu Asiantaeth |

---

## 38 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 39 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.

## 40 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**41 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – PMT**

Gwnaeth Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r Arweinydd Gweithredol - Tacsis gyflwyno'r wybodaeth gefndir mewn perthynas â PMT. Cyfeiriodd yr Arweinydd Gweithredol - Tacsis at wall teipograffyddol ar dudalen 9, paragraff 3 yr adroddiad. Nododd y dylid newid y dyddiad i 11 Rhagfyr 2020.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd PMT yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Rhoi llythyr rhybuddio i PMT ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.
2) Adnewyddu Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Hurio Preifat PMT am gyfnod o un flwyddyn.

**42 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am roi Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - RPG**

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r Arweinydd Gweithredol - Tacsis yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â RPG.

Esboniodd RPG yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Rhoi llythyr rhybuddio i RPG ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol;
2) penderfynwyd cymeradwyo cais RPG am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat am gyfnod o un flwyddyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.01pm

**Cadeirydd**